UWE Bristol | University of the West of England

SUSTAINABLE FOOD places

LLEOEDD BWYD cynaliadwy



# Partneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru

## Adroddiad Gwerthuso Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

ADRODDIAD INTERIM MEHEFIN 2023

Mat Jones, Sarah Hills · Prifysgol Gorllewin Lloegr

## Awduron

Mat Jones, Athro Iechyd y Cyhoedd a Datblygu Cymunedol, Canolfan Iechyd Cyhoeddus a Llesiant Bryste

Sarah Hills, Uwch Ddarlithydd mewn Cynaliadwyedd, Adran Pensaernïaeth a'r Amgylchedd

Prifysgol Gorllewin Lloegr

## Cyswllt

Matthew.jones@uwe.ac.uk

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r holl awdurdodau lleol ac asiantaethau arweiniol lleol sy'n derbyn grant partneriaeth bwyd amlsector Llywodraeth Cymru, Synnwyr Bwyd Cymru a Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Ariannwyd yr ymchwil gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Sefydliad Esmee Fairbairn.

Ar gyfer adroddiadau eraill yn y gyfres, gweler: Jones, M., Hills, S., & Beardmore, A. (2022). *The value of local food partnerships: Covid and beyond*.

https://uwe-repository.worktribe.com/output/9228014

# Trosolwg

**Yn 2022, Llywodraeth Cymru oedd y gyntaf o blith llywodraethau pedair gwlad y DU i ariannu datblygiad partneriaethau bwyd amlsector ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'r cefndir, y cynlluniau a'r cynnydd cynnar sy'n digwydd mewn dwy ar hugain o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.**

Mae gan y system fwyd swyddogaeth amlwg yn y meysydd llesiant cymdeithasol, iechyd a'r amgylchedd. Fodd bynnag, yn hanesyddol, ni fu llwyfan polisi yn y DU i alluogi llywodraeth leol a'u partneriaid i gymryd camau gweithredu cydlynol ar faterion yn ymwneud â'r system fwyd sy'n effeithio ar eu hardaloedd nhw. Crëwyd partneriaethau bwyd lleol i ddod â chyfranogwyr ynghyd o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector – a chymdeithas sifil – i gydlynu gwaith ar faterion allweddol sy'n cynnwys diogeled bwyd i aelwydydd, cadwyni cyflenwi bwyd byrrach a dulliau caffael cynaliadwy gan gyrff cyhoeddus.

Yn annibynnol ar bolisi'r DU a'r gwledydd datganoledig, mae o leiaf 102 o gynghorau[1], wedi buddsoddi mewn partneriaethau bwyd amlsector, yn aml gyda chyllid a chefnogaeth ategol gan y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Yn yr Alban, disgwylir i'r Ddeddf Cenedl Bwyd Da (Good Food Nation Act) gyflymu'r broses hon, drwy ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor a bwrdd iechyd ddatblygu cynlluniau bwyd lleol. Er nad oes unrhyw ofyniad presennol i gymryd y cam hwn yng Nghymru, mae llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei bwriad drwy gronfa £2.5 miliwn i gefnogi pob awdurdod lleol i ddatblygu partneriaeth fwyd amlsector. Roedd y canllawiau'n rhoi pwyslais ar rôl y partneriaethau hynny o ran mynd i'r afael â thlodi bwyd, gan ganolbwyntio ar achosion sylfaenol y broblem a'r angen am newidiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach ar draws y system fwyd.

Mae rhan o'r ysgogiad ar gyfer hyrwyddo partneriaethau bwyd yng Nghymru wedi deillio o dystiolaeth o gamau gweithredu effeithiol drwy bartneriaethau yn ystod y pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd gwaith nodedig gan bob rhan o gymdeithas mewn sawl ardal i ddarparu cymorth brys yn ymwneud â bwyd. Roedd nifer fach o leoedd eisoes yn elwa ar waith tlodi bwyd amlsector ardal gyfan cyn y pandemig. Cafodd y lleoedd hynny, gan gynnwys Caerdydd, sylw cenedlaethol am eu hymateb cyflym a phendant, yn ogystal â gallu'r partneriaethau i arddangos effeithiau eu gweithredoedd. Mae Synnwyr Bwyd Cymru, sefydliad sy'n ceisio hybu dull traws-sector yn y system fwyd yng Nghymru, wedi curadu'r arfer gorau hwn gyda phob ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu camau gweithredu sy'n seiliedig ar le mewn perthynas â materion bwyd.

1 Data Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ar awdurdodau lleol y DU rhwng 2017–2023.

# Dulliau

**Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhan o werthusiad o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sy'n cwmpasu'r DU gyfan, rhaglen sy'n cael ei chynnal o 2019 i 2024. Ar gyfer yr astudiaeth hon, y nod oedd ceisio deall effeithiau grant partneriaeth bwyd Llywodraeth Cymru mewn ardaloedd a oedd yn aelodau o'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a'r ardaloedd hynny nad oeddent yn aelodau o'r rhaglen. Fe wnaethom ddadansoddi ceisiadau gan 21 o blith y 22 awdurdod a gafodd y grant[2]. Roedd hyn yn cynnwys categoreiddio cyfansoddiad a rolau rhanddeiliaid lleol, yn ogystal â'r blaenoriaethau a'r amcanion ar gyfer pob ardal.**

Cynhaliwyd tri ar ddeg o gyfweliadau gyda deiliaid grantiau, arweinwyr sefydliadau cyflawni a chydlynwyr yn cynrychioli 10 o'r 22 ardal awdurdod lleol sy'n derbyn y grant. Roedd y rhain yn ardaloedd a oedd yn aelodau o'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a'r rhai nad oeddent yn aelodau. Roedd yr ardaloedd a gyfwelwyd yn cynrychioli o leiaf un awdurdod lleol o bob un o'r saith ardal Bwrdd Iechyd (Gweler yr Atodiad).

Mae cyfyngiadau i'r canfyddiadau presennol. Mae'r cyfnod sy'n cael ei gwmpasu gan grant Llywodraeth Cymru yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol 23–24 a dim ond megis dechrau defnyddio'r cyllid yr oedd llawer o'r ardaloedd pan gynhaliwyd y cyfweliadau. Er i ni gyfweld â chynrychiolwyr o asiantaethau amrywiol, mae gwaith ymchwil pellach yn debygol o gyflwyno safbwyntiau ychwanegol.

2 Mae yna 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Oherwydd ei faint daearyddol, derbyniodd Powys ddau grant i gwmpasu Gogledd Powys a De Powys. Ni roddodd un ardal awdurdod lleol gydsyniad i Brifysgol Gorllewin Lloegr adolygu ei chais.

# Canfyddiadau

## Llwybrau ar gyfer datblygu partneriaethau


**Mae'r ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru ar gamau gwahanol o ran eu taith tuag at ddatblygu partneriaethau bwyd. Fel y dangosir yn y siart isod, ar y cam gwneud cais roedd nifer fach ohonynt eisoes wedi sefydlu partneriaeth fwyd amlsector. Nid oedd gan ardaloedd eraill unrhyw fforymau neu roedd ganddynt bartneriaeth sefydledig a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar dlodi bwyd.**

Mae mwyafrif y partneriaethau'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae gan rai ardaloedd drefniadau amgen gan gynnwys mentrau cymdeithasol ar gyfer tyfu bwyd, sefydliadau seilwaith y trydydd sector ac un gymdeithas dai. Eglurodd y rhai a gyfwelwyd fanteision ac anfanteision eu trefniadau llywodraethu penodol nhw. Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwahanol fathau o drefniadau hyn yn hollbwysig ar gyfer unrhyw ganllawiau arfer gorau yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol yn y dyfodol.

Mae naw o'r 22 ardal (41%) yn aelodau o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Mae tua hanner cant y cant o boblogaeth Cymru'n byw mewn ardaloedd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Roedd trefnu cymorth bwyd brys yn ystod y pandemig yn ysgogiad sylweddol i weithio mewn partneriaeth. Parhaodd y gwaith hwn i fod yn ysgogiad yn sgil y cynnydd mewn costau byw o 2021.

**Camau sefydlu partneriaethau bwyd**




Nodiadau. Rhoddodd dwy ardal fwy nag un ymateb. Mae dwy ardal wedi dod yn aelodau o Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy ar ôl gwneud cais.

Roedd Byrddau Iechyd, yn benodol timau iechyd cyhoeddus, yn allweddol o ran helpu ardaloedd i ddatblygu dull yn seiliedig ar y boblogaeth a dull system gyfan fel rhan o'u ceisiadau Yn nodedig, bu rhai timau iechyd y cyhoedd yn helpu i greu cysylltiadau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos yn nalgylchoedd y Byrddau Iechyd er mwyn cydlynu'r cynlluniau.

Un nodwedd nodedig yn yr ardaloedd hynny ag arweinyddiaeth gadarn gan y sector gwirfoddol oedd eu pwyslais ar gynnwys asiantaethau amrywiol mewn partneriaethau a chynnal ymgynghoriadau ar lawr gwlad. Mae'n ymddangos bod y ffocws hwn yn seiliedig ar ymddiriedaeth gadarn yn y rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol.

Dangosodd y ceisiadau fod rhai o'r partneriaethau bwyd lleol yn datblygu o raglenni datblygu gwledig a threfol hirdymor a oedd yn rhan o gynlluniau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r Undeb Ewropeaidd a chynlluniau tebyg. Mae partneriaethau sy'n cael eu harwain gan dimau o'r fath yn arddangos arbenigedd yn y math o ddull rheoli rhaglen cymhleth sydd ei angen i ddiwygio'r system fwyd.

## Ymgysylltiad rhanddeiliaid â phartneriaethau

Elfen graidd unrhyw bartneriaeth aml-sector yw'r gallu i gynrychioli amrywiaeth o fuddiannau. Cyfeiriodd yr ymgeiswyr at ystod eang o randdeiliaid â buddiannau'n gysylltiedig â materion bwyd ar lefel leol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, y rhanddeiliaid a nodwyd oedd y rhai a oedd hefyd yn ymwneud â grŵp llywio'r bartneriaeth. Fodd bynnag, ni nodwyd rolau penodol yn gyson, a oedd yn golygu nad oedd bob amser yn glir pa mor weithgar fyddai pob rhanddeiliaid. Roedd gwahaniaethau hefyd yng nghyfansoddiad aelodau'r grŵp llywio yn nhermau'r cydbwysedd rhwng swyddi uwch benderfynwyr, arweinwyr gweithredol, ac aelodau lleyg a oedd yn cyfrannu profiad bywyd.

Nid oedd y ceisiadau'n darparu darlun cyson o strwythurau'r partneriaethau, er enghraifft yn nhermau rolau'r cydlynydd, cadeirydd ac eraill â chylch gwaith penodol. Rhoddodd yr ardaloedd a oedd yn aelodau o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ddarlun mwy manwl o'u strwythur llywodraethu, a oedd yn adlewyrchu'r canllawiau a roddwyd i'r aelodaeth.

Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr at nifer fawr o sefydliadau yn ogystal â'r grŵp craidd. Mae'r rhain yn debygol o adlewyrchu'r rhwydwaith ehangach o sefydliadau sydd â diddordeb mewn materion bwyd lleol yn hytrach na'r grŵp llywio craidd. Rhestrodd yr ardaloedd hynny nad oeddent ar y cam o fod wedi sefydlu grŵp llywio bwyd y gynghrair neu'r rhwydwaith o sefydliadau lleol sy'n rhan o'u gwaith, ac yn benodol gweithgarwch tlodi bwyd.


O ystyried y mathau o randdeiliaid dan sylw, roedd cynrychiolaeth gref o adrannau awdurdodau lleol, fel y gellid disgwyl. Yn benodol, y grwpiau ALl y nodwyd eu bod yn cael eu cynrychioli amlaf oedd grwpiau datblygu cymunedol, datblygu economaidd a busnes, a datblygu gwledig (neu garfannau tebyg). Roedd cynrychiolaeth gref o Fyrddau Iechyd, yn benodol felly o blith timau iechyd y cyhoedd ac i raddau llai ym maes caffael y GIG.

Roedd rhanddeiliaid o'r sector ffermio a'r sector manwerthu bwyd yn ehangach yn absennol ar y cyfan. Roedd eithriadau nodedig i'r patrwm hwn. Pwysleisiodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd fod ymgysylltiad busnes, yn arbennig gyda'r sector ffermio, ar waith ond bod angen amser i hynny ddatblygu. Roedd y rhai â hanes hir o ymgysylltu o'r farn bod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer ymgysylltu â busnesau bwyd a mwy o eglurder ynglŷn â chylch gwaith partneriaethau bwyd lleol ar gyfer y rhanddeiliaid hyn.

Nododd yr ardaloedd ystod eang o amcanion a oedd yn gysylltiedig â defnyddio grant Llywodraeth Cymru. Cynhyrchodd ein gwaith codio sylfaenol 64 math o ddatganiad amcanion, a grynhowyd yn ddeg categori, a ddangosir ar y siart. Prif ffocws y partneriaethau lleol oedd tlodi bwyd. Mae hyn yn cyfateb i ganllawiau grant Llywodraeth Cymru, ond cadarnhaodd llawer o'r cyfweleion mai dyma oedd prif bryder y cyhoedd mewn perthynas â bwyd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd wedi blaenoriaethu camau gweithredu a fyddai'n mynd i'r afael ag achosion dyfnach tlodi bwyd, yn

**Camau gweithredu ac uchelgeisiau partneriaethau**




hytrach nag ymateb brys. Thema gyffredin oedd yr hyn a ddysgodd yr ardaloedd o'u profiad yn y pandemig ar gyfer delio â materion cydlynu, cynnwys a chysondeb. Roedd pedwar o'r rhai a gyfwelwyd yn croesawu'r grant fel cyfle i gamu'n ôl o 'ddelio ag argyfyngau' a mabwysiadu safbwynt mwy strategol a thymor hwy.

Roedd amcanion yn ymwneud â chyfiawnder bwyd a mynediad i fwyd yn amlwg iawn yn y cynlluniau. Yn aml, roedd y rhain wedi'u cysylltu'n agos â sgiliau coginio, tyfu bwyd yn y gymuned a rhaglenni bwyd cymunedol, gan gynnwys clybiau bwyd. Roedd gweithgareddau datblygu rhwydweithiau bwyd a gweithgareddau datblygu partneriaethau bwyd hefyd yn amlwg yn y ceisiadau.

Roedd nodau'r diwydiant bwyd yn dueddol o ganolbwyntio ar arddwriaeth a gweithgareddau mentrau bach neu ganolig. Anaml iawn y cyfeiriwyd at faterion sy'n gysylltiedig â ffermio 'prif ffrwd' a phrosesu a manwerthu ar raddfa fawr, sydd fwy na thebyg yn adlewyrchu ymgysylltiad cyfyngedig y rhanddeiliaid hyn a'r canfyddiadau o'r hyn sydd y tu hwnt i gwmpas y partneriaethau hyn.

Ac eithrio gwaith gyda FareShare Cymru, nid oedd lleihau ac ailgylchu gwastraff bwyd yn elfen amlwg o'r ceisiadau. Gallai hyn adlewyrchu ffocws canllawiau grant Llywodraeth Cymru a set benodol o ysgogwyr polisi lleol ar gyfer y mater bwyd hwn.

Roedd yr 'uchelgais' yn amcanion yr ardaloedd yn cyd-fynd yn agos â cham datblygu'r bartneriaeth, hynny yw, mae ardaloedd â phartneriaethau newydd yn ceisio sefydlu sylfaen eu gwaith (er enghraifft mapio'r ddarpariaeth bwyd cymunedol), a'r partneriaethau mwy sefydledig yn canolbwyntio ar ehangu eu gweithgareddau (er enghraifft amrywio cyrhaeddiad eu rhaglenni).

## Rôl y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Mae naw o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn aelodau presennol o'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy[3]. Mae ardaloedd eraill wrthi'n ystyried ymaelodi. Dangosodd dadansoddiad cymharol o geisiadau grant Llywodraeth Cymru fod aelodau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn tueddu i gyflwyno ceisiadau mwy datblygedig o gymharu â'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r rhaglen, yn nhermau:

3 Saith oedd y nifer adeg cyflwyno ceisiadau am grant i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2022.

- Cynrychiolaeth o asiantaethau amrywiol ar y bartneriaeth fwyd.
- Cynrychiolaeth gan uwch benderfynwyr lleol, o fewn llywodraeth leol a thu hwnt.
- Tystiolaeth o effeithiau gwaith blaenorol perthnasol.
- Uchelgais yr amcanion ar gyfer y cynllun gwaith.
- Manylion technegol ar gyfer gweithredu'r cynllun gwaith.

Dangosodd y cyfweliadau fod yr ardaloedd sy'n aelodau o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn gwneud defnydd rhagweithiol o grant Llywodraeth Leol. Roedd hyn yn golygu bod ganddynt gynlluniau dros dro ar waith cyn i'r cyllid gael ei gyhoeddi a, lle y bo'n briodol, roeddent wedi penodi staff, dyfarnu grantiau lleol a gwario cyfalaf yn amserol.

Mae partneriaethau bwyd newydd wedi gallu cyflymu eu gwaith drwy gysylltu â phartneriaethau bwyd mwy aeddfed a sefydlwyd yn gynharach yng Nghymru, yr oedd pob un ohonynt yn aelodau o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd a oedd yn aelodau o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a'r rhai nad oeddent yn aelodau, eu bod wedi defnyddio adnoddau ar-lein Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i'w helpu i ddatblygu eu ceisiadau, er enghraifft drwy addasu enghreifftiau o astudiaethau achos.

## Synnwyr Bwyd Cymru a chreu rhwydwaith cenedlaethol o bartneriaethau

Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi cynnull a chydlynu meysydd gwaith amrywiol yn ymwneud â bwyd er budd ardaloedd lleol. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod Synnwyr Bwyd Cymru yn gyfathrebwyr effeithiol iawn i gyfranogwyr allweddol mewn awdurdodau lleol o ran y datblygiadau diweddaraf mewn polisïau bwyd yng Nghymru. Roedd yr asiantaeth hefyd wedi helpu i gyflwyno ymholiadau a chyfraniadau o ardaloedd lleol eraill mewn fforymau cenedlaethol. Roedd gwaith Synnwyr Bwyd Cymru i godi ymwybyddiaeth o fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy wedi helpu i 'awdurdodi' cyfranogwyr a oedd yn dymuno datblygu dull systemau bwyd.

Gall gwaith i ddatblygu partneriaeth fwyd fod yn gymhleth a brawychus. Mae arweinwyr mewn ardaloedd cynghorau wedi bod yn rhannu eu hymarfer ac wedi cymryd rhan mewn gwaith mentora a chefnogi cymheiriaid. Yn nodedig, mae'r ardaloedd hynny â'r hanes hiraf o weithio mewn partneriaeth, er enghraifft Caerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy wedi bod mewn sefyllfa i gynghori timau sy'n newydd i'r maes.

Mae'n fwy addas i bartneriaethau rhanbarthol ddelio â rhai materion yn ymwneud â'r system fwyd yn hytrach na phartneriaethau lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i gydweithio mewn clystyrau rhanbarthol, gan adeiladu ar nodweddion daearyddol strategol Byrddau Iechyd neu asiantaethau datblygu rhanbarthol. Mae enghreifftiau blaenllaw yn cynnwys mapio prosiectau bwyd safonol, hyrwyddo cynlluniau talebau bwyd, datblygu hybiau bwyd, ehangu rhaglenni cyfnewid bwyd ysgol a fferm-ysgol.

## Arwyddocâd y cyd-destun polisi yng Nghymru

Mae datblygiad partneriaethau bwyd aml-sector wedi'i alluogi gan nifer o nodweddion sy'n deillio o ddatganoli yng Nghymru. Mae cyrff cyhoeddus datganoledig a llunwyr polisïau wedi cyfrannu at nodweddion ac effeithiau nodedig partneriaethau lleol yng Nghymru, er enghraifft dylanwad strategaeth gordewdra Cymru Pwysau Iach: Cymru Iach (2022–24), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu un pwynt cyfeirio i'r partneriaethau. Drwy'r ddeddf, mae Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol yn darparu fframwaith llywodraethu i bartneriaethau ac, o safbwynt ymarferol, llwybr i benderfynwyr ar lefel awdurdod lleol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cymorth a gynigir gan y Ddeddf Llesiant i bartneriaethau bwyd: mae'r nodau a'r dangosyddion llesiant yn y ddeddf yn eang ac ni cheir cyfeiriadau penodol at fwyd. Mae hyn yn golygu nad yw materion yn ymwneud â'r system fwyd yn llywio blaenoriaethau Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn uniongyrchol.

Mae ardaloedd awdurdod lleol wedi elwa hefyd o'r polisïau bwyd sy'n benodol i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd ac ymestyn y rhaglenni llwgu yn ystod y gwyliau. Ers 2004, mae targedau strategol wedi'u pennu mewn ardaloedd awdurdodau lleol ar gyfer ailgylchu bwyd.

Er nad yw'r bil aelodau preifat Bil (Bwyd) Cymru 2023 yn mynd yn ei flaen drwy Senedd Cymru, mae'r prosesau casglu tystiolaeth ac ymgynghori sy'n ymwneud â'r bil wedi esgor ar roi sylw eang i bwysigrwydd gweithgareddau wedi'u harwain yn lleol yn ymwneud â systemau bwyd a'r angen am fwy o gydlyniant o ran polisi ac atebolrwydd[4]. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio adeiladu ar y momentwm ac mae wrthi'n datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol yn y flwyddyn nesaf.

Drwy'r rhwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol, mae gan Gymru fframwaith clir ar gyfer darparu cymorth ar ffurf seilwaith i sefydliadau lleol yn y trydydd sector. Roedd gan y cynghorau hyn rôl yn cydlynu materion yn ymwneud â'r system fwyd i rai partneriaethau bwyd lleol.

Yng Nghymru, mae materion sy'n ymwneud â'r system fwyd wedi dod yn nodwedd yn llawer o'r ffrydiau grant lleol a rhanbarthol. Cyn grant Llywodraeth Cymru, roedd rhai cynghorau a'u partneriaid eisoes wedi penderfynu bod angen iddynt gydlynu eu hymateb ar sail y cyfleoedd hyn.

Yn fwy cyffredinol, roedd nifer o gyfweleion o'r farn bod hanes lleol o undod cymunedol, gweithredu cymdeithasol ac amgylcheddol a balchder mewn ardal leol yn ysgogwyr pwysig ar gyfer diddordeb ar lawr gwlad mewn partneriaethau a rhwydweithiau bwyd lleol. Yn wahanol i rai materion yn seiliedig ar bartneriaeth, llwyddodd yr ymgyngoriadau ar faterion bwyd i ennyn diddordeb y cyhoedd.

## Adborth ar grant Llywodraeth Cymru

Ystyriwyd bod yr adborth yn y cyfweliadau am y broses grantiau a'r bwriadau sy'n sail i'r cynllun yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn gwerthfawrogi'r arweiniad gan Synnwyr Bwyd Cymru a'r ffaith bod y ffurflen gais yn un fer.

Roedd termau'r cyllid yn caniatáu hyblygrwydd lleol a ffyrdd newydd o weithio. Roedd hefyd yn rhoi llwyfan i gymryd safiad mwy strategol a llai adweithiol ar faterion bwyd lleol.

Roedd y buddiannau anuniongyrchol yn cynnwys rôl y cyfle cyllido i gynnull arbenigwyr sy'n gweithio ar lefel awdurdod lleol ledled Cymru. Mae rhai o'r cysylltiadau hyn yn newydd ac yn annisgwyl yn nhermau eu synergeddau. I dimau llai profiadol, mae cyfleoedd i drosglwyddo gwybodaeth am yr hyn a ddysgwyd o'r tu allan i'r ardal.

Roedd y cyfnod aros hir rhwng y cyhoeddiad, y broses ymgeisio a'r cadarnhad i fwrw ymlaen wedi creu rhwystredigaeth i ardaloedd oedd â chynlluniau clir ar waith.

Roedd cyfnod byr y grant yn destun pryder, o ystyried yr amser a oedd yn gysylltiedig ag ymgynghori, cyd-gynhyrchu a gwaith strategol. Roedd llawer o ardaloedd yn cael anhawster i fwrw ymlaen ag agweddau mwy cymhleth ar eu cynlluniau o fewn cyfnod y grant. Fodd bynnag, fel y soniodd un o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd, roedd yr amserlen dynn wedi cynorthwyo'r bartneriaeth i hoelio ei sylw ar yr angen i weithredu.

4 Cynghrair Polisi Bwyd Cymru (Mai 2023) Cynghrair Polisi Bwyd Cymru: A oes angen Bil Bwyd ar Gymru?

# Casgliadau

**Mae dyfarniad diweddar Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i gefnogi datblygu partneriaethau bwyd lleol yn gam newydd ym mholisi systemau bwyd y DU. Mae'r polisi cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ar waith traws-sector a chynllunio hirdymor wedi helpu i greu'r amodau ar gyfer partneriaethau bwyd lleol.**

Mae partneriaethau bwyd lleol yng Nghymru ar gamau gwahanol o ran eu datblygiad ac maent yn adlewyrchu amodau penodol eu hardal. Mae'r amrywiaeth hwn yn dangos priodoldeb a photensial y model ar gyfer lleoliadau gwahanol sy'n seiliedig ar le.

Mae fframwaith ac adnoddau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy wedi bod yn ysgogwyr ar gyfer newid yn y dirwedd fwyd yng Nghymru. Mae partneriaethau bwyd newydd wedi llwyddo i gyflymu eu gwaith drwy gysylltu â phartneriaethau bwyd sefydledig a mwy aeddfed.

Er hynny, nid yw adnoddau'r partneriaethau wedi'u sicrhau, o ystyried maint, cymhlethdod ac arwyddocâd y materion sy'n ymwneud â systemau bwyd lleol y maent yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae rhai cynghorau a'u partneriaid yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ddod â thimau staff at ei gilydd ac alinio'r buddsoddiadau. Gan mai dim ond hyd at 2024 y disgwylir i'r gwaith a wneir o dan y grant partneriaeth bwyd lleol gael ei ariannu, mae'n bwysig cofnodi'r hyn a ddysgwyd cyn gynted â phosibl er mwyn bod yn sâl i waith yn y maes hwn yn y dyfodol.

# Atodiad

Fe wnaethom gyfweld ag ymgeiswyr grant arweiniol a/neu arweinwyr prosiectau sy'n cwmpasu 10 o'r 22 ardal ALl ac a oedd yn cynrychioli o leiaf un ALl o bob un o'r saith ardal Bwrdd Iechyd.

| Awdurdod Lleol | Bwrdd Iechyd | Cyfweliad [+ ffynonellau eraill] |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Aneurin Bevan | 17 Mai |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cwm Taf Morgannwg | |
| Caerffili | Aneurin Bevan | |
| Caerdydd | Caerdydd a'r Fro | |
| Sir Gaerfyrddin | Hywel Dda | 17 Mai |
| Ceredigion | Hywel Dda | |
| Conwy | Betsi Cadwaladr | |
| Sir Ddinbych | Betsi Cadwaladr | 8 Mehefin |
| Sir y Fflint | Betsi Cadwaladr | |
| Gwynedd | Betsi Cadwaladr | |
| Ynys Môn | Betsi Cadwaladr | |
| Merthyr Tudful | Cwm Taf Morgannwg | |
| Sir Fynwy | Aneurin Bevan | |
| Castell-nedd Port Talbot | Bae Abertawe | |
| Casnewydd | Aneurin Bevan | |
| Sir Benfro | Hywel Dda | 13 Mehefin |
| Gogledd Powys | Powys | 30 Mai |
| De Powys | Powys | 30 Mai |
| Rhondda Cynon Taf | Cwm Taf Morgannwg | 25 Mai |
| Abertawe | Bae Abertawe | 30 Mai |
| Torfaen | Aneurin Bevan | 24 Mai |
| Bro Morgannwg | Caerdydd a'r Fro | 15 Mai |
| Wrecsam | Betsi Cadwaladr | |

**Allwedd**

Cynhaliwyd cyfweliad cyn dyfarnu'r grant





Adroddiadau eraill yn y gyfres hon:
https://uwe-repository.worktribe.com/output/9228014

ISBN 978-1-860436-17-8

**Clawr blaen:**
**Dail gwahanol fathau o fresych deiliog**
© Tetiana Kolubai/IStock